**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2003) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2003) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**16 Medi 2025**

## 1. Disgrifiad

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003") i ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y rhestr o awdurdodau lleol y gall Gweinidogion Cymru dalu grantiau'n uniongyrchol iddynt o dan adran 31 o'r Ddeddf honno.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn darparu ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel mecanwaith ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru.

4. Mae adran 31 o Ddeddf 2003 yn caniatáu i Weinidogion Cymru dalu grant i 'awdurdod lleol yng Nghymru'. Mae'r diffiniad o ba gyrff sy'n awdurdodau lleol at ddibenion yr adran honno wedi ei nodi yn adran 33 o'r Ddeddf honno. Nid oedd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi eu cynnwys yn y rhestr o'r blaen.

5. Mae adran 84(2) o Ddeddf 2021 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn cysylltiad â Rhan 5 o'r Ddeddf honno i ddiwygio, addasu, cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu ddatgymhwyso unrhyw ddeddfiad.

6. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

7. Ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai a byddant yn dod i rym ar 20 Hydref 2025.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

8. Diben y Rheoliadau hyn yw ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y rhestr o awdurdodau lleol y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cyllid grant iddynt o dan y pwerau yn adran 31 o Ddeddf 2003.

9. Sefydlwyd Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyda'r disgwyliad y byddai Llywodraeth Cymru yn ffynhonnell rhywfaint o gyllid iddynt. Mae Canllawiau Statudol yn nodi, 'wrth gyfrifo ei ofynion cyllidebol, rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd ystyried unrhyw amcangyfrif o'r cyllid y mae'n disgwyl ei gael gan ffynonellau cyllid eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, cyrff y sector preifat, cyrff y trydydd sector a chyrff gwirfoddol'.

10. Mae cydnabyddiaeth eang bod capasiti a gallu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn parhau i fod yn faterion allweddol yn eu datblygiad. Er mai'r bwriad yw y bydd awdurdodau lleol yn talu'r rhan fwyaf o'r costau ar gyfer gweinyddu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall gefnogi'r Cyd-bwyllgorau hyn i gyflawni eu hamcanion a sicrhau eu bod hefyd yn rhan o'r 'teulu llywodraeth leol'.

11. Gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau eang o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ymrwymo i gytundeb i dalu grant yn uniongyrchol i unrhyw berson, gan gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ar gyfer hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

12. O ystyried yr angen posibl i ddarparu cyllid parhaus i Gyd-bwyllgorau Corfforedig i gefnogi eu capasiti (a hefyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol), ystyrir ei bod yn well cael ffordd benodol o ddarparu grantiau i'r Cyd-bwyllgorau hyn yn hytrach na dibynnu ar bŵer cyffredinol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn sgil yr amcan ehangach o sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', rydym o'r farn y byddai'r mecanwaith hwn yn cael ei gyflawni orau drwy ddiwygiad i adran 33 o Ddeddf 2003.

13. Mae'r Rheoliadau hyn felly yn diwygio adran 33 i ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf 2021 at y rhestr o awdurdodau lleol y gall Gweinidogion Cymru dalu grantiau iddynt o dan adran 31 o Ddeddf 2003.

## 5. Ymgynghori

14. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad chwe wythnos ar y diwygiad arfaethedig i Ddeddf 2003 rhwng 7 Mai a 18 Mehefin 2025 a chafwyd 19 o ymatebion. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion. Bwriedir cyhoeddi Crynodeb o'r Ymatebion cyn 10 Medi 2025.

15. Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yma: [Deddfwriaeth i weinidogion Cymru dalu grantiau i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig: crynodeb o'r ymatebion [HTML] | LLYW.CYMRU]

## RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Yr opsiynau

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opswin mewn perthynas â diwygio deddfwriaeth i ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y rhestr o awdurdodau lleol y gall Gweinidogion Cymru dalu grantiau iddynt o dan adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

- ***Opsiwn 1 – Gwneud dim***. Cadw'r trefniadau presennol, heb unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth.

- ***Opsiwn 2 – Gwneud y Rheoliadau hyn***. Deddfu i ddiwygio Deddf Llywodraeth Leol 2003 i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y rhestr o awdurdodau lleol y caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau iddynt o dan adran 31 o'r Ddeddf honno.

### Costau a manteision

#### *Opsiwn 1 – Gwneud dim*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn gofyn am unrhyw newid deddfwriaethol. Gall adrannau Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau cyffredinol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i dalu grantiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn parhau i gael eu trin yn wahanol i awdurdodau lleol, pan fwriadwyd iddynt, ar adeg eu creu, fod yn rhan lawn o'r 'teulu llywodraeth leol' ac yn ddarostyngedig i'r un trefniadau llywodraethiant o ran materion fel cyllid.

*Mae perygl y gallai cyfarwyddiaethau ledled Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio pŵer mor eang i dalu grantiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfyngu ar y trefniadau llywodraethiant a chraffu a gymhwysir o bosibl, gan golli golwg ar gydymffurfiaeth â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda llywodraeth leol fel y nodir yn y Cytundeb Partneriaeth Strategol.*

#### *Opsiwn 2 – Gwneud Rheoliadau 2025*

Opsiwn 2 fyddai gwneud y Rheoliadau i ddiwygio adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y rhestr o awdurdodau lleol yn yr adran honno. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud Rheoliadau o'r fath yn fach oherwydd natur gyfyngedig y diwygiad. Mae'r Rheoliadau yn galluogi ac nid ydynt ynddynt eu hunain yn gosod unrhyw gostau uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, nac unrhyw barti arall.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig manteision fel mwy o eglurder cyfreithiol, llai o risg o ganlyniadau anfwriadol, a gwell gallu i fynd i'r afael ag amgylchiadau unigryw o'i gymharu â phwerau cyffredinol.

Bydd cael y ddarpariaeth glir hon ar gyfer talu grantiau i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gan Weinidogion Cymru o fewn deddfwriaeth benodol i lywodraeth leol yn cryfhau trefniadau llywodraethiant. Gall llai o amwysedd a rheolau cliriach arwain at lai o anghydfodau costus a heriau cyfreithiol, gan fod llai o le ar gyfer dehongliadau sy'n gwrthdaro. Yn yr un modd, mae gwneud y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod llinellau cyfrifoldeb clir wedi eu sefydlu ar gyfer gweithredwyr a gweithredoedd penodol, gan ei gwneud hi'n haws, er enghraifft, i ddwyn Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyfrif am eu gweithredoedd.

**Dewis opsiwn**

Ystyrir bod manteision Opsiwn 2 yn gorbwyso'r costau cysylltiedig, yn ogystal â manteision Opsiwn 1. Opsiwn 2, felly, yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

**Dyletswyddau**

***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cyd-fynd â'r nod llesiant o adeiladu Cymru lewyrchus drwy gymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur, ochr yn ochr â'r nod o sicrhau cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

***Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn***. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

***Y Gymraeg***. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth Deddf yr Iaith Gymraeg, ac felly byddai angen i unrhyw grantiau weithredu o fewn y paramedrau hyn. Efallai y bydd cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith o ran amodau grant penodol, ond bydd hyn wrth gwrs yn dibynnu ar natur y grant.

***Cydraddoldeb***. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

***Y sector gwirfoddol***. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y sector gwirfoddol.

***Cyfiawnder***. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar y system gyfiawnder.

**Asesiad o'r gystadleuaeth -** Mae'r Rheoliadau yn annhebygol o gael effaith andwyol ar gystadleuaeth.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau lleol i fonitro effaith y newid deddfwriaethol o ran cyllid grant.